

PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2018

PRESENNOL:	Y Cynghorydd Alun Mummery (Cadeirydd) Yr Awdurdod Lleol Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Gwilym O Jones
WRTH LAW:	Mr J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd - CSYM) Mrs Sian Purcell (Prif Swyddog - Medrwn Môn) Ms Lindsey Williams (Lleisiau Leol - Medrwn Môn) Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn) Ms Sandra Roberts (Age Cymru - Gwynedd a Môn) Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Llinos Medi, R Meirion Jones Mr Islwyn Humphreys (Samariaid) Ms Eirian Wynne Williams (BIPBC)

1. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt hyd at ddiwedd Mawrth, 2018.

2. IS-GADEIRYDD

Gohiriwyd ethol yr Is-Gadeirydd tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt.

3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o'r cofnodion: -

Eitem 6 – Lleisiau Lleol

Cafwyd diweddariad gan Ms Lindsey Williams, Medrwn Môn ar y prosiect Lleisiau Lleol, a ddaeth i ben ddiwedd Mawrth, 2017. Dywedodd fod cyllid wedi'i ymestyn, o dan y Portffolio Lleisiau Lleol newydd, tan 31 Mawrth, 2018, gyda chyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y prosiect "Llais Ni" (Cyngor Ieuenctid Môn). Nodwyd y byddai'r portffolio yn parhau i fod yn rhan o brosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu cymunedau ar ôl Mawrth 2018, a byddai'r gwaith a fabwysiadwyd yn flaenorol gan Lleisiau Lleol yn parhau drwy'r Bwrdd Gwasanaeth ac Ymgysylltu.

5. GRŴP TRYDYDD SECTOR

Ni thrafodwyd yr eitem hon.

6. CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT AR GYFER PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cyflwynodd Prif Swyddog Medrwn Môn fersiwn ddrafft o Gynllun Gweithredu i'r Pwyllgor o'r enw 'Gyda'n Gilydd', sef dogfen ar gyfer y bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Medrwn Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Nododd bod y Cynllun Gweithredu yn ddogfen weithredol sy'n esblygu'n barhaus.

Gweithredu:

- **Y Prif Swyddog, Medrwn Môn i drafod Y Cynllun Gweithredu drafft ymhellach gyda swyddogion o'r Cyngor;**
- **Cyflwyno diweddariad pellach i'r cyfarfod nesaf.**

7. CYLCH GORCHWYL AR GYFER Y PWYLLGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd 'Gylch Gorchwyl' y Pwyllgor fel y gellid adolygu ei gynnwys.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn at Eitem 2 - bod dwy sedd wag ar hyn o bryd ar gyfer aelodaeth y Trydydd Sector ar y Pwyllgor Cyswllt. Nodwyd fod gan y Sector dri aelod etholedig ar y Pwyllgor ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD:-

diwygio 'Cylch Gorchwyl' y Pwyllgor fel a ganlyn: -

- **Adrannau 3-8 – newid y gair 'Bwrdd' i 'Pwyllgor';**
- **Adran 6 – bod y Pwyllgor yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn gyda'r amod y gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol os bydd angen.**
- **Bod y Prif Swyddog, Medrwn Môn yn hysbysebu'r ddwy swydd wag am gynrychiolwyr Trydydd Sector ar y Pwyllgor Cyswllt.**

8. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror a Medi 2018 er gwybodaeth ac i'w nodi.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Rhaglen Waith yn cael ei diweddarau bob mis, a'i chyflwyno i'r Trydydd Sector er gwybodaeth. Mae hyn yn rhoi syniad da i'r Sector o'r hyn sy'n digwydd, ynghyd â gwybodaeth sylfaenol i gefnogi ymgysylltu / mewnbwn gyda'r Sector.

9. Y CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt am 2.00 pm ar 10 Gorffennaf 2018 yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm

**Y CYNGHORYDD ALUN MUMMERY
CADEIRYDD**